YSGOL TERRIG

# Pecyn Croeso
# Dosbarth Meithrin
# 2021

# <u>Dosbarth Meithrin Ysgol Terrig</u>

Mae cychwyn ysgol yn ddigwyddiad enfawr o fewn bywyd plentyn tair neu phedair oed ac ni fyddi'n hir cyn i'ch plentyn chi cychwyn hefo ni yma yn Ysgol Terrig. Bydd yna lwyth o bethau newydd i ddysgu ac wrth gwrs mi fyddech eisiau sicrhau bod eich plentyn yn barod ar gyfer y digwyddiad pwysig. Ein nod ni yw sicrhau profiad hapus a bythgofiadwy. Rydym yn gobeithio y bydd y llyfryn yma hefo gwybodaeth defnyddiol i helpu eich plentyn setlo i mewn yn gyflym.

Athrawes Dosbarth Meithrin yw Mrs Davies a'r cymhorthydd dysgu yw Anti Trudy.








## Gwybodaeth Cyffredinol

Ein manylion yw:

Ysgol Terrig
Ffordd y Llan
Treuddyn
Mold
CH7 4LN

**Rhif ffôn:** 01352 770235

**Ebost:** postterrig@hwbmail.net

**Wefan yr ysgol:** www.ysgolterrig.org.uk

**Instagram/ Facebook/ Trydar:** @ysgolterrig

**Prif Athrawes:** Mrs N Connah

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr M Smith

# <u>Cyfarfod y Staff</u>



Mrs Connah
Pennaeth



Mrs Smith
Ysgrifenyddes



Mrs Davies
Athrawes



Auntie Trudy
Cymhorthydd Dysgu

# Dysgu Adref

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhieni a gofalwyr yn natblygiad plentyn. Fel rhiant, chi yw addysgwyr cyntaf eich plentyn, ac rydym yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth fedrwch chi rannu hefo ni am gynnydd eich plentyn.

I hwyluso hwn, rydym yn darparu bag darllen/ gwaith cartref i bob plentyn yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Mae'r llyfr yma yn adnodd i chi, eich teulu, ac eich plentyn i weithio hefo'ch gilydd. Rydym yn annog chi i drafod a cwblhau'r tasgau hefo'ch gilydd. Bydd tasgau yn ymwneud hefo themâu'r dosbarth, yn rhoi cyfleoedd i'ch plentyn ymarfer ei sgiliau trafod, gwrando, ffoneg a mathemateg ymhellach. Mi fydd y bag darllen yn cael ei yrru adref pob Dydd Iau a disgwylir o nôl bob Dydd Llun.

I gefnogi hwn, rydym hefyd yn defnyddio Seesaw. Mae Seesaw yn ap teulu-gyfeillgar sydd yn helpu ni fel ysgol i dracio ac asesu datblygiad eich plentyn yn ogystal â ffordd i chi weld beth mae eich plentyn wedi bod yn dysgu. Am fwy o wybodaeth, ewch draw i wefan yr ysgol.

Rydym yn darparu nifer gwahanol o gyfleoedd i chi fel rheini a gofalwyr i gymryd rhan yn addysg eich plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Digwyddiadau chwaraeon
- Cylchlythyr a thestunau rheolaidd
- Tudalennau dosbarth a chyfryngau cymdeithasol wedi ei adnewyddu'n rheolaidd hefo newyddion, themâu a lluniau

Yn bwysicach, mae ein hethos teulu yn ganolog i ni fel ysgol ac yna hefo polisi drws agored lle mae'r rheini yn cael ei annog i siarad hefo'r staff i drafod unrhyw bryderon. Croeso i chi ffonio'r swyddfa, bydd Mrs Smith yno i'ch cynorthwyo, neu drefnu apwyntiad hefo aelod o staff, os gofynnir am hynny.

# <u>Dysgu Adref</u>

Bydd cychwyn ysgol yn haws ac yn hapusach os ydyn nhw’n annibynnol ac yn gallu gwneud dipyn o bethau drostyn nhw’u hunain.

**Beth ddylai fo/hi gallu gwneud?**

Fedrith o/hi..

- Gwisgo a dadwisgo nhw’u hunain?
- Defnyddio’r toiled yn annibynnol a gofyn i fynd yna?
- Tacluso ar ôl nhw’u hunain?
- Adnabod eu henw? Gadewch i’r athrawes gwybod os yw enw’r yn dalfyredig mewn unrhyw ffordd.
- Bwydo’u hun?
- Rhannu teganau neu offer?
- Dal pensil?
- Canu hwiangerddi?
- Ymarfer cyfri i 10?
- Gwrando yn dda a dilyn cyfarwyddiadau?

**Sut fedrai helpu paratoi fy mhlentyn ar gyfer ysgol?**

- Annog eich plentyn i fod yn annibynnol lle’n bosib hyd yn oed os ydy hi’n cymryd mwy o amser.
- Arferion da, amser gwely rhesymol a chodi digon cynnar i chi a’ch plentyn cael bore di-straen cyn dod i’r ysgol.
- Peidiwch â bygwth ysgol! Byddwch yn bositif. Dangoswch yr ysgol fel lle i fwynhau.

**Be allai wneud hefo fy mhlentyn cyn iddyn nhw gychwyn ysgol?**

- Rhowch nifer o brofiadau gwahanol i’ch plentyn a phosib: tynnu llun, peintio, coginio, canu, creu modelau, chwarae gemau, jig-so..
- Helpwch nhw ddod i’r arfer hefo: pensiliau, creonau, pinnau ffelt, sialc, paent, toes, siswrn..
- Rhannwch straeon, llyfrau ac odlau. Darllenwch iddyn nhw.
- Cyfrifwch bob peth a rhannwch bethau allan.

• Defnyddiwch lot o ohebiaeth un i un – cwpan, plât, cyllell, fforc, llwy i bob person.
• Siaradwch hefo nhw o hyd. Enwch bob dim sydd o'ch cwmpas a thrafodwch ei bwrpas. Gwyliwch bobl yn gweithio a thrafodwch yn union beth maent yn gwneud.

**Sut fedrai helpu fy mhlentyn ymhellach hefo'r iaith Gymraeg?**

• Llwytho apiau Cymraeg (gwelwch restr ar dudalen Dosbarth Meithrin ar wefan yr ysgol)
• Gwrandewch ar ganeuon Cymraeg (Caru canu – Youtube)
• Gwrandewch ar straeon Cymraeg (Youtube)







# Diwrnod Dosbarth Meithrin

Dyma sut mae diwrnod arferol yn Dosbarth Meithrin yn cael ei amserlenni.

8:50 – Setlo mewn, hunan gofrestru a dewis her yn yr ardaloedd.

9:00 – Cofrestr a calendr

9:10 – Tric a Chlic a darllen

9:30 – Gweithgareddau mathemateg a Iaith/ Gweithgareddau rhydd

10:00 – Bwyd Bore

10:15 – Gweithgareddau Rhifedd

10:45 – Gweithgareddau thema

11:10 – Amser stori a chân

11:30 – Amser mynd adref





## Gweithtrefnau y Bore

Mi fydd y plant yn dod i mewn i'r ysgol trwy'r brif fynedfa. Bydd y plant yn cyfarfod Mrs Davies ar y buarth am **8:50 y.b**. lle bydd eich plentyn yn cael ei gymryd trwy'r brif fynedfa i olchi dwylo a defnyddio'r toiled. Mi fydd y plant wedyn yn cael ei cymeryd lawr i'r dosbarth i gychwyn y diwrnod. Os yw eich plentyn hwyr, ewch i'r brif fynedfa a chanwch y gloch.

## Casglu eich plentyn

Ar ddiwedd y dydd mi fydd eich plentyn yn dod allan drwy'r brif fynedfa. Rydym yn gofyn i'r rhieni/ gofalwyr i aros ar y llwybr tu allan ac nid ar dop y grisiau. Mae hi'n hynod o bwysig i adael i ni wybod os yna rhywun newydd yn dod i gasglu eich plentyn. Os nad ydym yn siŵr, wnawn ni cadw eich plentyn yn yr ysgol nes i ni gysylltu â chi. Os yw eich plentyn yn mynd i Feithrin +, bydd rhaid i chi gasglu nhw o'r giât wyrdd i'r chwith o'r brif fynedfa. Dyma fynedfa'r Cylch.

**Diwrnod Cyntaf yn yr Ysgol**

- Cyrhaeddwch ar amser
- Gadewch yn hapus
- Sicrhewch fod eich plentyn yn gwybod y byddwch chi'n dod yn ôl i gasglu nhw ar ddiwedd y dydd
- Dal llaw eich plentyn yn hytrach na chario nhw
- Os yw eich plentyn yn drist neu yn gwrthod gafael llaw, mi wnaiff Mrs Davies ddod i helpu. Mae dagrau diwrnod cyntaf yn gyffredin, a wnawn ni sicrhau eich bod eich plentyn yn hapus ac wedi setlo yn ystod y bore.

## Cinio Ysgol a Bwyd Bore

Mae Anna a Karen (ein cogyddion) yn paratoi prydau cynnes i ni bob dydd yn ein cegin ysgol. Mae'r fwydlen yn cael ei yrru allan ar gychwyn y flwyddyn, fodd bynnag, cewch ddod o hyd iddi ar lein ar wefan Newydd Catering.

Mae cinio ysgol yn £2.30, croeso i blant Meithrin aros i ginio yn Cylch. Mi fydd y sesiwn yma yn costio mwy oni bai eich bod chi yn hawlio o'r 30 awr gofal plant. I dalu am ginio ysgol, tripiau ac unrhyw beth arall bydd rhaid llwytho'r ap

schoolcoms. Cewch wahoddiad i hwn ym mis Medi gan Mrs Smith unwaith mae eich plentyn wedi cofrestru hefo ni.

Rydym yn gofyn i'ch plentyn dod a darn o ffrwyth i mewn ar gyfer amser bwyd bore. Rydym yn annog plant i drio ystod eang o fwydydd iach fel rhan o'r cwricwlwm felly sicrhewch eich bod chi wedi gadael i ni fel ysgol gwybod am unrhyw alergedd bwyd.

Bydd rhaid i'ch plentyn dod a photel o ddŵr i'r ysgol hefo'i enw wedi ei labeli ar y botel. Gan ein bod ni yn dilyn safonau bwyd ysgol iach, rhaid i hwn bod yn DDŴR ac NID sudd. Bydd y poteli yn cael eu cadw yn y dosbartho fewn cyrraedd i'r plant . Bydd y botel yn cael ei yrru adref yn ddyddiol i chi ei olchi ac ail lenwi.

## Gwisg Ysgol ac Ymarfer Corff

Cewch brynu ein gwisg ysgol ar lein o Monkhouse
https://www.monkhouse.com/c/1186/Terrig

**Ein gwisg ysgol yw:**
Siwmper glas tywyll
Crys polo melyn
Sgert/ trowsus/ siorts llwyd
Esgidiau du

**Ein gwisg ymarfer corff yw:**
Crys glas tywyll hefo logo'r ysgol neu grys gwyn
Siorts du
Treinyrs

**Ysgol Goedwig:**
Dillad hen a cynnes – mi fydd yr ysgol yn darparu gwisg a welis

Mae gwersi addysg gorfforol y plant yn cael ei gynnal tu allan oherwydd yr amgylchiadau. Peidiwch â defnyddio'r pumps du gan ei bod nhw'n llithrig ac yn syrthio i ffwrdd. Mae treinyrs yn saffach.

**Labelwch bob darn o ddilledyn ac offer mae eich plentyn yn dod i'r ysgol yn glir.**
Os mae pethau yn mynd ar goll, wnawn ni ddim dod o hyd iddyn nhw heb enw.

# Dysgu Drwy Chwarae yn Flynyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen

Yn Ysgol Terrig, tra mae’r plant yn rhan o’r dysgu hunangyfeiried, maent yn symud i mewn ac allan o’r ystafell dosbarth yn rhydd yn defnyddio’r adnoddau orau i anghenion nhw. Pwrpas o ddysgu tu mewn a thu allan yw darparu amglychedd ysgogol i’r plant ym mhob ystod o’r Flynyddoedd Cynnar. Mae chwarae tu allan yn hanfodol ar gyfer pob un agwedd o ddatblygiad plentyn. Fel dysgu tu mewn, mae’r awyr agored yn darparu plant hefo profiadau sydd yn sicrhau cyfleoedd iddyn nhw ddatblygu yn y chwech faes dysgu.





Mae darpariaeth a chynllunio ar gyfer tu mewn a thu allan yn gorfod adlewyrchu'r ystod o brofiadau a diddordebau'r plant. Mae’r oedolion yn bresennol yn yr amgylchedd hefo’r plant yn eu gemau a gweithgareddau lle’n briodol ac nid dan oruchwyliaeth yn unig. Mae ein dosbarth Meithrin hefo mat lle mae’r dosbarth cyfan yn cael mynediad i’r dysgu a grwpiau ffocws. Rydym hefyd hefo ardaloedd darpariaeth barhaus i’r plant defnyddio yn yr amser rhydd. Mae’r ardaloedd yn cynnwys: ardal ysgrifennu, ardal greadigol, tywod a dŵr, ardal adeiladu, byd bach, bysedd bywiog, ardal chwarae rôl a chornel darllen. Mae pob un ardal yn cael ei gynllunio’n unigol hefo gweithgareddau gafaelgar a chyffrous i’r plant.

# <u>Absenoldebau a Salwch</u>

Os yw eich plentyn yn sâl ac yn absennol o'r ysgol, rhowch alwad i'r ysgol cyn gynted â phosib ar ôl 8:30 y.b ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb, gadewch i ni wybod os yw'r salwch yn parhau dros fwy nag un diwrnod. Ni ddylai plant hefo salwch heintus ddod i'r ysgol nes bod doctor wedi rhoi caniatâd ac i'r rhai hefo salwch stumog (bygs), ni ddylech ddychwelyd yn ôl i'r ysgol tan 48 awr ar ôl yr 'digwyddiad' olaf.

Yn yr achos bod eich plentyn yn sâl yn yr ysgol, wnawn ni cysylltu hefo chi fel eich bod chi yn gallu mynd a fo/ hi adref. Mae'n bwysig bod eich manylion chi ac unrhyw gyswllt brys arall yn gywir.

Llau pen: byddwch yn ymwybodol bod pob ysgol yn cael problemau hefo llau pen bob hyn a hyn, felly os yw eich plentyn yn ildio, dydy hi ddim yn adlewyrchiad ar lendid eich plentyn. Os yw'r llau yn weladwy, wnawn ni ffonio chi i ddod i gasglu eich plentyn fel bod y driniaeth yn cael cychwyn yn syth. Mae hwn yn digwydd yn dawel, ni fydd eich plentyn yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd.

Os oes gan eich plentyn anghenion meddygol, bydd rhaid llenwi Cynllun Gofal Iechyd i roi'r wybodaeth rydym ei angen i sicrhau'r gofal gorau i'ch plentyn.

Yn yr ysgol, fe gawn roi meddyginiaeth ragnodedig fel antibiotics – lle bydd dôs o bedair gwaith y diwrnod – ac inhalers. Bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen pob tro mae meddyginiaethau yn dod i mewn i'r ysgol. Bydd rhaid i hwn gael ei basio ymlaen i oedolyn hefo'r feddyginiaeth. Peidiwch â rhoi'r feddyginiaeth ym mag eich plentyn.

Dydy ni fel ysgol ddim yn gweinyddu meddyginiaethau fel Calpol na Ibuporfen. Os mae eich plentyn angen yr un o'r ddau, ystyriwch os yw hi/ fo ddigon iach i ddod i'r ysgol.

## **Cymorth Ychwanegol**

Rydym yn cydnabod bod plant hefo arddulliau ac anghenion dysgu amrywiol. Rydym yn cynllunio i adeiladu ac ymestyn gwybodaeth, profiadau, diddordebau a sgiliau. Rydym yn defnyddio ystod eang o strategaethau dysgu yn dibynnu ar anghenion y plant ac yn creu amgylchedd dysgu saff a chefnogol.

Gall rhai plant cael ei nodi hefo anghenion dysgu. Mae'r plant yma angen cymorth ychwanegol i helpu nhw ddatblygu i'w potensial a chael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Os ddigwyddith hwn, mi fyddech yn derbyn cymorth gan ein ALNCo.

Os oes ganddo chi unrhyw gwestiynau yn ychwanegol i'r wybodaeth sydd yn y llyfryn yn barod, croeso i chi gysylltu â'r ysgol a siarad hefo aelod o staff.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen ein prosbectws.

Edrychwch ar ein gwefan am fwy o wybodaeth.

https://www.ysgolterrig.org.uk/

Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi a'ch plentyn i'r ysgol. Rydym yn gobeithio eich bod chi ac eich teulu yn mwynhau eich amser yn Ysgol Terrig.

# Dysgu'r Doniau i'r Dyfodol